# Tocio a llyfnu carnau ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys tocio a llyfnu carnau cefylau fel y pennir gan y cynllun gofal carnau. Mae'r tocio'n digwydd ar wyneb y carn trwy dorri a chrafu.  Mae llyfnu'n digwydd trwy grafu mur dorsal (tu allan) y carn.

Er mwyn tocio a llyfnu'r carnau bydd angen i chi fynd at y ceffyl a'i drin mewn ffordd sy'n debygol o leihau straen a braw a gweithio mewn safle sy'n ddiogel ar gyfer y ceffyl ac unrhyw un arall sydd yn gysylltiedig neu wedi'i effeithio gan eich gwaith yn cynnwys chi eich hun.  Byddwch yn gweithredu ar unrhyw gyflyrau'r carn sydd yn achosi newidiadau i
gynllun gofal y carn.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu eich dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid, codau ymarfer a pholisïau'r busnes.

Mae'r safon hon ar gyfer Pedolwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a phrofiad
2. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol yn ymwneud ag anifeiliaid ac iechyd a lles anifeiliaid
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r busnes
4. dewis a gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
5. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes
6. paratoi, cynnal a chadw, glanhau a storio'r offer, cyfarpar a'r deunyddiau gofynnol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
7. cynnal diogelwch a diogeledd offer a chyfarpar yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes
8. dewis y dull o drin a rheoli sy'n ofynnol ar gyfer y ceffyl perthnasol a'i anghenion, er mwyn lleihau'r risg i'r ceffyl ac unrhyw un arall sydd yn gysylltiedig â'r gwaith yn cynnwys chi eich hun
9. mabwysiadu safle gwaith sydd yn ddiogel ar gyfer y ceffyl a chi eich hun
10. tocio a llyfnu carn y ceffyl gan ddefnyddio'r offer a'r dulliau cywir yn unol â'r cynllun gofal carnau y cytunwyd arno
11. ar ôl tocio a llyfnu, diwygio'r cynllun gofal carnau os oes angen
12. cadarnhau bod lles y ceffyl yn cael ei gynnal trwy gydol y dasg
13. cynnal iechyd a diogelwch y ceffyl a'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, yn cynnwys chi eich hun
14. parhau i gyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
15. cadarnhau bod cofnodion wedi eu cwblhau, eu cynnal a'u cadw a'u storio fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol a'r angen i gynnal cymhwysedd proffesiynol
2. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r busnes
3. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol iechyd a diogelwch, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol eraill yn ymwneud ag anifeiliaid, a chyfyngiadau cyfreithiol y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol bresennol yn ymwneud â diagnosis a thrin clefydau neu anafiadau
4. y math o ddillad a chyfarparu diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
5. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch a'r dulliau ar gyfer cyflawni'r rhain
6. y mathau o offer a chyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer tocio a llyfnu a sut i'w paratoi, eu defnyddio, eu cynnal a'u cadw a'u storio, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi busnes
7. pam y mae'n bwysig cynnal diogelwch a diogeledd cyfarpar a pheiriannau ar y safle
8. y dulliau gwaith diogel ar gyfer tocio a llyfnu carnau
9. pwysigrwydd cydbwysedd y traed wrth docio a llyfnu
10. diben tocio a llyfnu carnau ceffylau
11. terfynau tocio a llyfnu diogel a pham na ddylid mynd y tu hwnt i'r rhain
12. effeithiau tocio a llyfnu ar osgo a gweithredoedd y ceffyl
13. sut i weithio'n ddiogel wrth docio a llyfnu carnau
14. sut i roi'r cynllun gofal carnau ar waith
15. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
16. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion busnes

## Geirfa

**Ffactorau i'w hystyried wrth docio a llyfnu carnau ceffylau:**

- oed yn fras
- ymddygiad
- cyflwr y carnau
- lles
- amgylchedd
- gweithgaredd y ceffyl
- yn gwisgo pedolau neu heb bedolau

**Gallai'r math o geffyl gynnwys:**

- merlen
- heliwr
- ceffyl gyrru
- asyn
- ceffyl cystadleuol
- ceffyl gwedd
- ceffyl rasio
- ceffyl marchogaeth
- mul

Tocio a llyfnu carnau ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFAR8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Pedoli, Gofal Carnau Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Pedolwr |
| **Geiriau Allweddol** | Ceffyl; carn; pedoli, crafu, ceffylau |